**Proffil Rôl ar gyfer:**


West Wales **Care & Repair**
**Gofal a Thrwsio** Gorllewin Cymru

# Arweinydd Tîm Gweithwyr Achos

Cyf. Gweithiwr |
Grŵp Arweinyddiaeth | B
Cyf. Proffil Rôl | 103
Dyddiad ymuno | I'w gadarnhau
Diweddarwyd ddiwethaf | 06/05/2025

## GWELEDIGAETH

Croeso i'ch proffil rôl yn ateb. Mae ein Proffiliau Rôl yn ein cysylltu ni i gyd â Gweledigaeth gyffredin ateb – gyda'n gilydd, Ni yw ateb.




Ein Diben cyffredin yw sicrhau bob amser ein bod yn …

### > #1 | Creu atebion gwell o ran byw,

Drwy fabwysiadu DNA sy'n canolbwyntio ar …

### > #2 | Ymddiriedaeth | Cydberthynas | Grymuso.

Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae o safbwynt gwireddu ein 3 nod strategol, sef

### > #3 | Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid | Gwasanaethu mwy o bobl | Gwella effeithiolrwydd ein busnes.

Bydd y modd y caiff ein gwasanaethau eu dylunio a'u darparu yn canolbwyntio bob amser ar gyflawni

### > #4 | Y canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn.

Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i ategu ein Fframwaith Sicrwydd drwy reoli ein

### > #5 | Risgiau | Systemau Rheoli | Profion

a rhaid bob amser i ni geisio gwrando, deall a dysgu, oherwydd …

### > #6 | Gwella yw ein gwaith o ddydd i ddydd

**Mae'r Weledigaeth a'i dogfennau ategol yn rhan o'r proffil rôl hwn.**

## 1 | MANYLION Y SWYDD

Y prif fanylion am y swydd hon:

| Dyma'r prif fanylion am y swydd: | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Teitl** | Arweinydd Tîm Gweithwyr Achos |
| **Cyflogwr** | ateb Group Limited |
| **Lefel** | Grŵp Arweinyddiaeth B |
| **Yn atebol i'r canlynol** | Pennaeth Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru |
| **Cyfarwyddiaeth** | Cwsmeriaid |

| Dyma'r cyfrifoldebau rheoli llinell sy'n rhan o'r swydd: |
|---|
| Gweithwyr achos |
| |
| |
| |
| |
| |

## 2 | CWSMERIAID

Y meysydd gwasanaeth sy'n pennu'r canlyniadau i gwsmeriaid yr ydym yn gweithio ar y cyd i'w cyflawni. Bydd y swydd hon yn cyfrannu'n bennaf at ganlyniad llwyddiannus yn y meysydd gwasanaeth canlynol, ond mae'n amlwg y bydd hefyd yn cynorthwyo pob maes yn ôl y gofyn. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn #4 Cyflawni.

| Prif feysydd gwasanaeth: | Canlyniadau: |
|---|---|
| SA/36 – Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru: Cyngor a chymorth i gwsmeriaid | Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain |
| SA/37 – Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru: Ymateb cyflym | Atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty/i ofal, neu gael pobl allan o'r ysbyty/o ofal ac yn ôl i'w cartref erbyn y dyddiad rhyddhau a gytunwyd |
| SA/38 – Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru: Addasiadau | Galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain |
| SA/39 – Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru: Gwasanaethau technegol | Cynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau craidd |

| Y prif gyfrifoldebau ar gyfer y canlyniadau uchod: | |
|---|---|
| **1** | Arwain a datblygu'r tîm gweithwyr achos, gan fonitro perfformiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn bodloni gofynion o ran cyllid a safonau ar gyfer ansawdd cyngor |
| **2** | Arwain a goruchwylio'r tîm o ran cynnal asesiadau o anghenion cwsmeriaid, a arweinir gan eu hanghenion nhw ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a rhoi atebion ar waith i alluogi ein cwsmeriaid i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain |
| **3** | Arwain a goruchwylio gweithgareddau ym maes llywodraethiant clinigol ar gyfer cymwyseddau Asesydd Dibynadwy |
| **4** | Rheoli eich llwyth eich hun o achosion cleientiaid er mwyn darparu ystod o gyngor a chymorth i gwsmeriaid, a fydd yn cynnwys addasiadau i'r cartref, gwaith atgyweirio a gwelliannau, cyngor am fudd-daliadau, sicrhau cymaint o incwm ag sy'n bosibl a chyfeirio pobl at asiantaethau eraill |
| **5** | Monitro ac adolygu data perthnasol am berfformiad er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid yn barhaus a sicrhau bod y canlyniadau gofynnol yn cael eu cyflawni |
| **6** | Gweithio ar y cyd â'r sector iechyd, awdurdodau lleol ac asiantaethau yn y trydydd sector i ddarparu a datblygu gwasanaeth gwaith achos sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid |
| **7** | Hyrwyddo gwasanaethau Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn gadarnhaol drwy ddigwyddiadau, cyflwyniadau, cyfarfodydd a gwaith cyfathrebu ysgrifenedig |

| **Cyfrifoldebau cyffredinol y swydd:** | |
|---|---|
| **1** | Cynorthwyo pob maes gwasanaeth arall, fel y bo'n briodol/yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd, i gyflawni eu canlyniadau, os oes angen cymorth arnynt gennyf i. |
| **2** | Adolygu canlyniadau fy maes gwasanaeth i'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn. |
| **3** | Adlewyrchu gwerthoedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson. |
| **4** | Cymryd cyfrifoldeb am fy natblygiad personol parhaus. |
| **5** | Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, sy'n gydnaws â gofynion y swydd. |

## 3 | Y GRŴP

Mae'r cyfrifoldebau canlynol sy'n ymwneud â'r Grŵp cyfan yn perthyn i'r swydd hon:

| Maes Gwasanaeth | Canlyniad i Gwsmeriaid | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| **SA/17 – Strategaeth** | Eglurder ynghylch sut y byddwn yn ehangu ein diben gymaint ag sy'n bosibl | Cynorthwyo'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli Gweithredol er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni'r blaenoriaethau strategol cywir i gyflawni ein nodau strategol. |
| **SA/18 – Rheoli sicrwydd** | Cael sicrwydd ein bod bob amser yn cydymffurfio ac yn gwneud y pethau cywir | Datblygu a monitro prosesau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a rymuswyd yn bosibl o fewn ein fframwaith sicrwydd, y cytunwyd arno. |
| **SA/19 – Iechyd a diogelwch** | Rydym yn bodloni ein gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol o safbwynt iechyd a diogelwch | Cymryd cyfrifoldeb personol i sicrhau fy mod i a'm tîm yn glynu wrth y ddeddfwriaeth berthnasol, systemau iechyd a diogelwch y sefydliad, a synnwyr cyffredin fel fy mod i, y cyhoedd, fy nghydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n partneriaid yn ddiogel bob amser. |
| **SA/20 – Cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu** | Twf cadarnhaol ein brand. Y negeseuon cywir i'r gynulleidfa gywir ar yr adeg gywir | Sicrhau bod unrhyw gyfathrebu â'm tîm ac unrhyw gyfathrebu gan fy nhîm yn effeithiol ac yn gefnogol i bawb. Hyrwyddo ein gwaith gerbron amryw gynulleidfaoedd sy'n hybu ein Diben, ein DNA a'n nodau strategol. |
| **SA/22 – Perfformiad a rheoli data** | Rydym yn gwybod ble y mae angen i ni wella, ble nad ydym yn cydymffurfio a ble'r ydym yn wynebu risg | Ceisio deall bob amser a ydym yn cyflawni ein canlyniadau gofynnol yn effeithlon gan roi profiad gwych i gwsmeriaid, a chynllunio a chyflawni gwelliannau a thwf mewn meysydd a glustnodir, drwy raglenni newid a reolir. |
| **SA/23 – Caffael a rheoli cyflenwyr** | Sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n rhoi Gwerth am Arian, gan gydymffurfio â'r rheoliadau | Sicrhau bod fy nhîm yn glynu wrth y rheolau a'r systemau caffael a sefydlwyd gan ateb. Sicrhau bod unrhyw waith caffael sy'n ofynnol yn cyflawni'r canlyniadau cywir. |

## 4 | PERSONOL

Bydd y swydd hon yn gofyn am y priodweddau personol, y cymwysterau, y sgiliau, y profiad ac ati canlynol.

| Priodwedd | Gofynion |
|---|---|
| **Cymhwysedd technegol** | Dyma y byddem yn hoffi i chi fod yn meddu arno, ond byddem yn falch o glywed sut yr ydych yn teimlo bod eich profiad, eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn bodloni gofynion y swydd.<br><br>Bydd gennych lefel uchel o gymhwysedd a phrofiad o ddarparu asesiadau, ymyriadau, cyngor a chymorth. Mae'n debygol y bydd gennych brofiad sylweddol o weithio gyda phobl hŷn/anabl sydd â mwy nag un anhawster o ran iechyd, a sgiliau ac arbenigedd sy'n berthnasol i anghenion o ran iechyd/tai a strategaethau/atebion atal, sy'n sgiliau ac yn arbenigedd y gellir eu trosglwyddo'n uniongyrchol neu'n hawdd i'r meysydd hynny. Yn ddelfrydol, bydd gennych brofiad ym maes rheoli/goruchwylio a byddai'n wych pe bai gennych gymhwyster ym maes rheoli/goruchwylio a phe baech yn gallu siarad Cymraeg. Mae angen achrediad Asesydd Lefel 3 ar gyfer y swydd, a bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu os nad yw'r achrediad hwnnw gennych.<br><br>A chofiwch hefyd … byddwn bob amser yn ystyried cymwysterau neu brofiad cyfatebol neu sgiliau ac arbenigedd trosglwyddadwy y gellir eu cymhwyso'n hawdd i'r swydd. Byddwn hefyd yn ystyried y gallu i ennill cymwysterau ffurfiol wrth gyflawni'r swydd, cyhyd â bod yr uchod yn cael eu cyflawni ac yn amodol ar amserlen a chost. Rhaid bod gan bawb yn ateb y gallu i ddangos lefel resymol o lythrennedd a rhifedd er mwyn gallu cyflawni ein swyddi. O'n safbwynt ni, mae hynny fel rheol yn golygu llwyddo mewn arholiadau TGAU/Sgiliau Allweddol neu fod â chymwysterau cyfwerth, ond rydym yn fodlon trafod hynny â chi. |
| **Gwneud penderfyniadau** | Byddwch yn gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio barn broffesiynol neu dechnegol i ddatrys problemau, asesu risg a deall yr effaith ar y Grŵp a'i gwsmeriaid. |
| **Rheoli pobl** | Byddwch yn barod i ddysgu oddi wrth eraill a rhannu gwybodaeth a phrofiad personol. Byddwch yn rhoi gwybod i aelodau'r tîm beth a ddisgwylir ganddynt. Os yn rheolwr llinell, byddwch yn defnyddio nodau'r adran i ddatblygu amcanion ystyrlon ar gyfer aelodau'r tîm. Byddwch yn rhoi adborth amserol am berfformiad ac yn cynnal perthynas waith gadarnhaol o fewn y tîm er mwyn sicrhau bod y tîm yn perfformio'n dda, gan herio eraill pan na chaiff hynny ei gyflawni. |
| **Gweithio mewn tîm** | Bydd angen creu'r amgylchedd iawn er mwyn i waith tîm ffynnu yn fewnol ac yn allanol. Byddwch yn gallu arwain timau a chymryd rhan ynddynt yn effeithiol. |
| **Rheolaeth ariannol** | Byddwch yn gosod, yn monitro ac yn adolygu cyllidebau sy'n gysylltiedig â'r meysydd cyfrifoldeb ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Byddwch hefyd yn gallu bod yn gyfrifol am unrhyw waith prynu angenrheidiol. |
| **Sgiliau trefnu** | Byddwch yn gallu pennu cynllun gwaith personol a blaenoriaethu tasgau allweddol yn effeithiol, gan oruchwylio cynllun gwaith y tîm yn ôl yr angen. |
| **Arloesi** | Rhaid i chi ddangos awydd i wella a herio'r hyn a wnawn, er mwyn gwella ein canlyniadau o ran gwasanaeth yn gyson, mor effeithiol ag y gallwn. Byddwch yn nodi, yn cynllunio ac yn cyflwyno gwelliannau yn y tîm, sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. |
| **Gwasanaeth i gwsmeriaid** | Byddwch yn cynnig profiad gwych i gwsmeriaid, yn fewnol ac yn allanol. Byddwch yn dangos i'r tîm a'ch cydweithwyr mor bwysig yw gwasanaeth i gwsmeriaid, drwy roi'r cwsmer yn gyntaf bob amser. |
| **Rheoli prosiectau / prosesau** | Byddwch yn cyflwyno gwelliannau i waith rheoli prosiectau yn eich maes gwasanaeth eich hun ac mewn meysydd gwasanaeth eraill er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni amcanion unigol ac yn cyfrannu i brosiectau'r tîm a'r Grŵp. |

| | |
|---|---|
| **Brwdfrydedd** | Byddwch yn gallu eich cymell eich hun i weithio a byddwch yn cyfrannu brwdfrydedd personol ac agwedd gadarnhaol er mwyn helpu pawb i ddod o hyd i atebion i broblemau. Byddwch yn gallu hybu ein DNA bob amser. |
| **Cymhwysedd technolegol** | Byddwch yn defnyddio ac yn datblygu systemau TGCh yn hyderus er mwyn darparu gwasanaethau a gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Yn benodol, bydd gennych wybodaeth ymarferol dda am raglenni meddalwedd nodweddiadol sy'n ymwneud â'ch maes arbenigedd a lefel eich cyfrifoldeb. Byddwch yn gallu gwneud y defnydd gorau o gyfres Microsoft 365 a Microsoft Office o raglenni, ac o ddyfeisiau a systemau cyfathrebu arferol busnes. |
| **Cyfathrebu / Cysylltiadau cyhoeddus / Marchnata** | Byddwch yn gallu hybu cyfathrebu da ar draws y sefydliad (cyfathrebu llafar, ysgrifenedig, wyneb yn wyneb) gan sicrhau bod timau'n cael eu cynnwys ac yn cael gwybodaeth bob amser. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn wych. |

## 5 | CRYNODEB O'R TELERAU A'R AMODAU

Mae manylion llawn y telerau a'r amodau ar gyfer y swydd hon i'w gweld yn eich Datganiad o Delerau ac Amodau. Yn gyfnewid am ymgymryd â'r swydd uchod, bydd ateb yn darparu'r canlynol:

| Telerau/Amodau | Manylion | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Cyflog sylfaenol** | £I'w drefnu | Y flwyddyn, a delir ar yr 28ain o bob mis neu ar y dydd Gwener blaenorol os bydd yr 28ain yn Ŵyl y Banc, yn ddydd Sadwrn neu'n ddydd Sul. |
| **Band cyflog** | | Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y fframwaith dyfarniadau cyflog, sef reward@ateb. |
| **Defnyddiwr car** | Defnyddiwr car hanfodol | Bydd angen bod gennych gar sydd ar gael at ddefnydd busnes i deithio i gyfarfodydd ac ati. Telir y lwfans ar gyfer defnyddiwr car hanfodol, a bydd y milltiroedd a deithir yn cael eu had-dalu ar sail cyfradd safonol Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. |
| **Tanysgrifiad proffesiynol** | ✓ | Bydd y Grŵp yn talu un ffi tanysgrifiad proffesiynol y flwyddyn. |
| **Cynllun Simply Health** | Cyfraniadau ar lefel sylfaenol | Mae'r Grŵp yn cynnig cynllun iechyd cyfrannol, sef Simply Health. Gallwch gynyddu'r yswiriant i lefel sy'n addas i'ch anghenion. |
| **Oriau'r wythnos** | 18.5 awr – dydd Mercher (1/2 diwrnod), dydd Iau a dydd Gwener | Mae system gweithio hyblyg ar waith, yn dibynnu ar eich swydd benodol chi ac ar ganlyniadau o ran gwasanaeth, yn unol â'n hegwyddor arweiniol. |
| **Gwyliau blynyddol** | 30 diwrnod sylfaenol (pro rata) | Yn ogystal â 3 diwrnod ychwanegol (pro rata). Y Grŵp fydd yn penderfynu pryd y caiff y diwrnodau hynny eu cymryd. |
| **Man gwaith** | Eich cartref | Mae system gweithio hyblyg ar waith, yn unol â'n hegwyddor arweiniol. Yn dibynnu ar eich swydd benodol chi ac ar ganlyniadau o ran gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi weithio yn ein swyddfeydd, ar ein safleoedd, gartref neu mewn lleoliadau addas eraill ar draws Sir Benfro/Ceredigion, ond eich cartref fydd eich man gwaith arferol. |

| Telerau/Amodau | Manylion | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Dysgu a datblygu** | ✓ | Rydym yn cynorthwyo aelodau ein tîm i ddatblygu eu gwaith dysgu. |
| **Lles** | ✓ | Rhaglen o weithgareddau lles ar gyfer y tîm. |
| **Pensiwn** | Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS) – Cyfraniadau Diffiniedig | Mae trefniadau cofrestru awtomatig ar waith. Bydd ateb yn cyfrannu'r un arian â chyfraniadau gweithiwr i'r Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig, hyd at derfyn y bydd y Bwrdd wedi cytuno arno. |
| **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** | ✓ | Mae angen gwiriad cofnodion troseddol ar gyfer y swydd hon. |

## 6 | RYDYM YN CYTUNO BOD YR UCHOD YN DISGRIFIO FY RÔL YN ATEB

| Partïon | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| **Prif Weithredwr** | | |

### Y print mân:

Adeg recriwtio: Byddwn yn gofyn am dystiolaeth/enghreifftiau, drwy'r broses ymgeisio, y broses gyfweld a/neu broses y ganolfan asesu, bod gennych y sgiliau, y profiadau, y nodweddion a'r priodweddau gofynnol i lwyddo yn y swydd hon. Byddwch yn dangos hynny drwy ystod o wahanol ddulliau, e.e. cymwysterau, enghreifftiau o brofiad, profion seicometrig, tystiolaeth o hyfforddiant, ac ati.

Adeg sefydlu: Byddwn yn cadarnhau'r agweddau allweddol ar gymorth a/neu unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu y bydd arnoch eu hangen i'ch galluogi i fwrw iddi.

Adeg adolygiadau 1 i 1: Byddwn yn trafod eich barn am eich perfformiad o safbwynt cyflawni a datblygu eich rôl, ac yn nodi pa welliannau yr ydych am eu gwneud a pha gymorth y gallai fod arnoch ei angen.

Dylech ddarllen y contract amgaeëdig, a'n Gweledigaeth a'r dogfennau cysylltiedig, i gael rhagor o fanylion am y proffil rôl hwn a'ch cyfrifoldebau o fewn Grŵp ateb – sef ateb, Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru.